OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 803 (Cy.97)

TAI, CYMRU

Gorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Terfynau'r Disgownt) (Diwygio) (Cymru) 2003

Wedi'i wneud	- -	*19 Mawrth 2003*
Yn dod i rym	- -	*2 Ebrill 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pŵer a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 131(2) o Ddeddf Tai 1985(**1**) sydd wedi'i freinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y mae'n arferadwy yng Nghymru(**2**):

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Terfynau'r Disgownt) (Diwygio) (Cymru) 2003 a daw i rym ar 2 Ebrill 2003.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru yn unig.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn mae cyfeiriad at y "prif Orchymyn" yn gyfeiriad at Orchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Terfynau'r Disgownt) (Cymru) 1999(**3**).

Diwygio Gorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Terfynau'r Disgownt) (Cymru) 1999

3. Yn erthygl 3 (Mwyafswm disgowntau) o'r prif Orchymyn yn lle'r ffigur "£24,000" rhodder y ffigur "£16,000".

(**1**) 1985 p.68.
(**2**) *Gweler* erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ac Atodlen 1 iddo (O.S. 1999/672).
(**3**) O.S. 1999/292.